## Y Pwyllgor Deddfau

**Dyddiad:** 21 Mawrth 2006
**Amser:** 9.30 am
**Lleoliad:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
**Teitl:** Craffu ar Ddeddfwriaeth yn y Cynulliad

### Craffu gan yr Oireachtas (Senedd Iwerddon)

Cynnwys yr Oireachtas yw 166 Aelod o'r Dail a 60 Aelod o'r Seanad. Mae'n gweithredu yn bennaf drwy system o gydbwyllgorau sectoraidd sy'n ymdrin â meysydd pwnc neilltuol. Ni cheir pwyllgorau sy'n ymdrin yn unig â chraffu'n dechnegol ar ddeddfwriaeth.

Yn 2002, ehangwyd cylch gorchwyl y pwyllgorau seneddol sectoraidd i gynnwys craffu ar offerynnau statudol perthnasol. Fodd bynnag, mae craffu o'r math yma'n un o ran natur â'r craffu a wneir ar hyn o bryd gan bwyllgorau pwnc y Cynulliad Cenedlaethol, yn hytrach na'i fod yn graffu technegol yn dilyn gwirio cyfreithiol manwl. Yn yr un modd, ni ddarperir cyngor cyfreithiol ynghylch cysondeb y Mesurau â gofynion cyfansoddiadol, Ewropeaidd na hawliau dynol.

Yn dilyn pasio'r European Union (Scrutiny) yn 2002 cafwyd datblygiadau pendant yn y trefniadau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Ceir Cydbwyllgor ar Faterion Ewropeaidd sydd yn bwrw golwg dros ddatblygiadau Ewropeaidd yn gyffredinol, mewn ffordd sydd yn debyg i Bwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol y Cynulliad, ond ei fod yn bwysicach am ei fod yn craffu'n uniongyrchol ar Lywodraeth Aelod Wladwriaeth ac yn ceisio dylanwadu ar ei swyddogaeth ar lefel y Cyngor.

Creffir yn fanylach ar gynigion deddfwriaethol mewn Is-bwyllgor ar Graffu Ewropeaidd, sydd yn derbyn, oddi wrth y Llywodraeth yn bennaf, adroddiadau manwl am gynigion ar gyfer deddfwriaeth yn Ewrop. Bydd wedyn yn dethol y rhai sydd yn teilyngu craffu ymhellach arnynt gan eu cyfeirio i'r pwyllgor sectoraidd perthnasol, fyddai hefyd yn gyfrifol am unrhyw graffu ymhellach ar weithredu'r ddeddfwriaeth. Darperir cyngor cyfreithiol ar gyfer yr Is-bwyllgor yn ôl y gofyn, ond mae hyn ar lefel uwch na drafftio technegol , sef lefel y cyfansoddiad a chymhwysedd.

### Casgliad

Yn Nulyn, ni cheir craffu technegol ar ddeddfwriaeth ddomestig fel ag a geir yn San Steffan a Chaeredin. O ran craffu ar gynigion deddfwriaeth Ewrop, mae Iwerddon ar y blaen a gall cymharu â hyn fod yn ddefnyddiol pan fydd gofyn am waith mwy manwl ynghylch dethol deddfwriaeth Ewropeaidd ar gyfer craffu'n fanylach arni.

***Gwyn Griffiths***
***GSC Cyfreithiol***
***Mawrth 2006.***